

**Cofnodion Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle'r Wylfa
a gynhaliwyd yn Ystafelloedd Eleth/Eilian ddydd Iau, 11 Mawrth 2010 am 3pm.**

Yn bresennol:

A Morris Jones	Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid yr Wylfa
N Gore	Cyfarwyddwr y Safle, Magnox North
G Vaughan	Yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear
P Woolmer	Yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear
D Simister	Arolygwyr Gosodiadau Niwclear
L Jones	Magnox North
J Milburn	Magnox North
K Hughes	Magnox North
A Hughes	Magnox North
M Thornton	Magnox North
T Roberts	Magnox North
J I Jones	Magnox North
A Smith	Horizon Nuclear Power
Cyng W T Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng J V Owen	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng K P Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn
J H Jones	Cyngor Cymuned Mechell
E Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
L W Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
J Honey	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
S Roberts	BCUHB – Swyddfa Ynys Môn
S Andrews	Iechyd Cyhoeddus Cymru
A Hall	Dŵr Cymru
T Conway	Cymdeithas Staff Ymddeoledig yr Wylfa
M O'Hara	Cyflogai wedi Ymddeol
J Dobson	Preswlydd Lleol
H V Williams	FUW / UAC
R A Jones	UAC
T Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Y Fonesig Anglesey	
G Reynolds	

Hefyd yn bresennol:

H M Hughes	Partneriaeth Adfywio Amlwch (Ysgrifennydd Cofnodion)
C Evans Thau	Partneriaeth Adfywio Amlwch (Ysgrifennydd Cofnodion)
Cymen	Cyfieithu ar y Pryd

1 CROESO A DERBYN YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2431 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2432 Yr oedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan G M Jones (Cyngor Cymuned Mechell); Ieuan Wyn Jones (AC); J Roberts (Cadeirydd blaenorol y GRhS); Cyng G W Roberts OBE (Cyngor Sir Ynys Môn, Ward Amlwch); Cyng W E Rolley a K White (Ysgrifenyddiaeth GRhS). Yr oedd y Cadeirydd yn dymuno anfon llythyr at K White am nad yw wedi bod yn dda.

2 CYMERADWYO COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF A GYNHALIWYD AR 26 TACHWEDD 2009

2433 Dywedodd M Thornton nad oedd ei enw ar y rhestr o'r rhai oedd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf, a gofynnodd am gael ei gynnwys.

3 MATERION YN CODI O'R COFNODION DIWETHAF

2434 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Cynigiwyd gan y Cyng K P Hughes; eilio gan M Thornton.

4 DERBYN ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y SAFLE

2435 Yr oedd adroddiad Cyfarwyddwr y Safle wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw gyda'r agenda.

2436 Hysbysodd N Gore y grŵp fod yr Wylfa wedi cael cyfnod o weithredu'n llwyddiannus. Dywedodd hefyd fod yr Wylfa wedi cael adolygiad blynyddol gyda'r Arolygwyr Gosodiadau Niwclear (NII) ar 11 Mawrth 2010 a'i fod wedi bod yn gyfarfod da gyda dim ond ambell fân bwynt yn codi.

2437 Eglurodd N Gore fod cymeradwyaeth derfynol wedi'i rhoi gan NII i ddechrau adennill tanwydd wedi'i ddifrodi o Gell Storio Sych 4 (DSC4) ar 27 Tachwedd 2009 ac erbyn 19 Chwefror 2010, yr oedd 12 o'r 19 elfen wedi'u symud yn ddiogel. Bydd angen gwaith ychwanegol ar y saith elfen arall gan eu bod yn anos eu symud, a chyn gynted ag y bydd dyluniad yr offer i wneud y gwaith wedi'i gwblhau bydd achos diogelwch yn cael ei gyflwyno i'r NII.

2438 Rhoddodd N Gore esboniad byr i'r cyfarfod o gynnwys Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle a oedd yn cynnwys cwblhau a gwella'r Gwaith Trin Elifion Gweithredol; y 143 o sefydliadau a oedd yn bresennol yn Nigwyddiad llwyddiannus 'Cwrdd â'r Prynwr' Cadwyn Gyflenwi Gogledd Cymru yng Ngwesty'r Celt, Caemarfon; a hefyd prif weithgarwch y safle yn ystod y 3 mis nesaf.

2439 Ychwanegodd N Gore fod yr Wylfa wedi cynnal record ddiogelwch ragorol drwy gydol y cyfnod heb ddim digwyddiadau rheoliadol, diffyg cydymffurfio na hysbysadwy. Yr oedd yr Wylfa ymhell o flaen y targed gyda 0.548TWh wedi'i gynhyrchu erbyn 31.01.10 o'i gymharu â tharged o 0.459TWh. Hoffai hefyd ddiolch i G Vaughan a'r ADN am gyllid ar gyfer prosiectau newydd.

- 2440 Hysbysodd N Gore y grŵp fod Mark Owen Jones wedi ennill gwobr Prentis Niwclear y Flwyddyn. Dywedodd hefyd oherwydd ymddeoliad diweddar y byddai 19 o weithwyr shifft newydd.
- 2441 Dywedodd N Gore fod ITV Wales a The Politics Show y BBC wedi bod yn ffilmio ar y safle'n ddiweddar.
- 2442 Noddodd N Gore fod yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd wedi cynnal enwebiad drafft ar gyfer safleoedd adeiladu newydd a ddaeth i ben ar 22 Chwefror 2010. Bydd y 6 enwebiad terfynol yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach yn 2010.
- 2443 Rhestrododd N Gore y cyllid a roddwyd gan yr ADN ar gyfer prosiectau economaidd-gymdeithasol, hynny yw, 1.2m o gyllid Ewropeaidd, 2.5m - 'Llunio'r Dyfodol' ac 1.5m – Y Ganolfan Ynni a Saernio yn Llangefni.
- 2444 Gofynnodd T Conway a oedd unrhyw risg o dan yn DSC4. Esboniodd N Gore fod risgiau tân yn derbyn sylw drwy achos diogelwch a lofnodir gan NII.
- 2445 Gofynnodd R A Jones a oedd yr Wylfa wedi dod o hyd i broblem gyda'r asesiad cyntaf o'r elfennau. Eglurodd N Gore fod yr elfennau'n cyrydu gan fod dŵr wedi gollwng i'r gell storio sych, lle'r oeddent yn cael eu cadw, a bod yn rhaid adfer yn ddiogel yr elfennau hynny sydd wedi cyrydu. Ychwanegodd fod y gwaith wedi'i gwblhau erbyn hyn heblaw am waredu'r 7 elfen sy'n weddill o'r 19. Gofynnodd R A Jones faint o amser fyddai'n ei gymryd i waredu'r 7 elfen olaf. Dywedodd N Gore nad oedd am roi ateb pendant ond gallai gymryd rhai misoedd.
- 2446 Gofynnodd R A Jones ai Rhagfyr 2012 yw'r dyddiad terfynol ar gyfer cau'r Wylfa. Dywedodd N Gore fod y dybiaeth gynllunio wedi newid o 2010 i 2012. Eglurodd pe bai'r Wylfa'n cau y byddai'n ddibynnol ar berfformiad y MOP (Cynllun Gweithredol Magnox); mae'n bosibl y gallai fod y tu hwnt i 2012 os nad oes problemau gyda'r MOP. Fodd bynnag, pe cyfyd problemau gyda'r MOP, gellid cau'r Wylfa cyn 2012. Ychwanegodd fod 3 Chwmni Trwydded Safle (SLC) wedi'u cynnwys o fewn y MOP.
- 2447 Gofynnodd y Fonesig Anglesey sut y byddai'r Wylfa'n gwybod pe byddai rhan o'r broses o fewn MOP wedi mynd o chwith. Atebodd N Gore fod pawb sy'n gysylltiedig â'r MOP yn gwybod beth yw eu harwyddocâd yn y broses a'r hyn y byddai angen iddynt ei wneud pe bai problem yn codi.
- 2448 Gofynnodd y Cyng K P Hughes beth fyddai'r effaith ar yr ardal o ran y gwaith a fydd yn digwydd ac a oes unrhyw gynlluniau ar gyfer y traffig a fyddai'n teithio drwy nifer o ardaloedd. Eglurodd J Milburn fod Cynllun Rheoli Amgylcheddol ar waith sy'n edrych ar symudiadau traffig. Bydd mesurau arfaethedig yn barod h.y. pa un fydd y llwybr gorau, golchi olwynion y loriau ayb.
- 2449 Dywedodd J H Jones yr hoffai ddiolch i'r ADN am yr arian a oedd wedi'u ddyrannu.

2450 Hysbysodd A Smith y cyfarfod fod Horizon yn cydweithio'n agos â Magnox a'u bod wedi cynnal astudiaethau traffig, a'u bod hefyd wedi cynnal astudiaeth arall gyda llwyth trwm cyn y cyfarfod. Yr oeddent wedi nodi Llanfachraeth fel man sydd angen sylw ac yr oeddent am ddiolch i'r aelodau a chydnabod eu pryderon.

5 DERBYN ADRODDIAD CADEIRYDD Y GRhS

2451 Cyflwynodd A M Jones grynodedb byr o Adroddiad Cadeirydd y GRhS.

2452 Pwysleisiodd A M Jones bwysigrwydd y cysylltiad awyr rhwng y Fali a Chaerdydd o safbwynt adeiladu gorsaf newydd. Yr oedd hefyd am fynegi ei werthfawrogiad i'r ADN am yr arian a ddyrannwyd ar gyfer y Ganolfan Ynni a Saerïo yng Ngholeg Menai, Llangefni.

6 DIWEDDARIAD GAN IS-GRŴP ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL YR WYLFA

2453 Dosbarthwyd copi o'r cylchlythyr yn y cyfarfod. Eglurodd J Jones fod y canllawiau ar gyfer cyllido wedi cael eu datblygu a bod y ffigurau wedi'u rhoi yn y cylchlythyr ynghyd â manylion am y grantiau sydd ar gael.

7 DIWEDDARIAD GAN IS-GRŴP GWASTRAFF YR WYLFA

2454 Eglurodd A M Jones fod gan M Thornton gyflwyniad i'w roi ar Wastraff Lefel Ganolraddol (ILW) yn y cyfarfod.

8 DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD DADGOMISIYNU NIWCLEAR

2455 Cafwyd crynodeb byr gan G Vaughan ar ddiweddariad yr ADN.

2456 Hysbysodd G Vaughan y cyfarfod fod y cyntaf o ddau ddigwyddiad diwydiant Dounreay wedi'u cynnal yn Caithness fel rhan o'r broses gystadlu i sicrhau Sefydliad Corff Rhiant ar gyfer y safle. Ychwanegodd fod record ddiogelwch yr Wylfa wedi bod yn ardderchog a hoffai longyfarch yr Wylfa ar dderbyn Gwobr 5 Seren Cyngor Diogelwch Prydain am y drydedd flwyddyn yn olynol, sy'n cydnabod y pwyslais a roddir ar ddiogelwch yn yr Wylfa.

2457 Gofynnodd R A Jones beth fyddai effaith cyflymu'r gwaith dadgomisiynu yn Nhrawsfynydd. Eglurodd G Vaughan fod hon yn rhaglen anodd ac mai'r dyddiad diweddaraf ar gyfer dadgomisiynu yw 2014. Gyda chyflymiad 7 mlynedd ac er mwyn cyflawni'r holl ofynion megis gofal a chynnal a chadw, bydd y rhaglen gostwng uchder yn cael ei gohirio am 3 blynedd a bydd y rhaglen lleihau peryglon cael ei chyflawni'n gynt.

9 ADRODDIAD AROLYGWYR GOSODIADAU NIWCLEAR EM

- 2458 Yr oedd copi o'r adroddiad wedi'i ddsbarthu cyn y cyfarfod. Cafwyd crynodeb byr o'r adroddiad gan D Simister, a oedd yn cyfeirio at Chwarter 4 2009.
- 2459 Eglurodd D Simister fod tair elfen ynghlwm wrth ymestyn y gwaith cynhyrchu ynni. Y rhain oedd; ail werthuso achosion diogelwch lle'r oedd tybiaeth y byddai'r estyniad yn mynd ymlaen am 4 blynedd arall; rhaid i'r NII fod yn hyderus ynghylch y MOP ac y bydd yr Wylfa'n gallu cyflawni, ac edrych ar yr ystyriaethau diogelwch sydd ynghlwm wrth ymestyn y cyfnod cynhyrchu h.y. a oes digon o weithwyr i wneud y gwaith, ac ati.
- 2460 Hysbysodd D Simister y cyfarfod fod newidiadau wedi'u cynnig o ran yr asiantaeth / sefydliad rheoleiddio er mwyn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr / busnesau.
- 2461 Mynegodd J H Jones bryderon ynghylch y broses ddiwygio a gallu'r NII i reoleiddio yn achos cynlluniau mawr. Dywedodd D Simister mai diogelwch y gwaith yw'r brif ystyriaeth i'r NII a'u bod yn fwy rhagweithiol ag asiantaethau cymorth technegol o ran materion rheoleiddio. Mae'r NII hefyd yn ystyried opsiynau ar gyfer cymorth.
- 2462 Gofynnodd T Conway a oedd NII yn cyflogi ymgynghorwyr a gofynnodd faint maent yn ei gostio. Eglurodd D Simister eu bod yn cyflogi ymgynghorwyr a bod y costau'n cael eu dyrannu i'r costau rheoleiddio. Pwysleisiodd fod NII yn rhoi pwyslais ar edrych ar arbenigedd unigolion yn y maes. Ychwanegodd G Vaughan fod proses dendro a chaffael gaeth yn cael ei dilyn.

10 WYLFA A STRATEGAETH GWASTRAFF LEFEL GANOLRADDOL (ILW) Y DU

- 2463 Cafwyd cyflwyniad gan M Thornton ar y Strategaeth Gwastraff Lefel Ganolraddol (ILW) a lle'r Wylfa o fewn y Strategaeth Niwclear Genedlaethol.
- 2464 Gofynnodd J A Jones pam mae ILW yn cael ei drafod yn awr ac yntau wedi bod yn cael ei gynhyrchu ers cymaint o flynyddoedd. Eglurodd M Thornton fod y disychwr yn cael ei ddefnyddio i sychu'r lleithder sy'n dod o'r adweithydd a'i fod yn cael ei storio mewn man diogel ar y safle. Hoffai'r Wylfa ddefnyddio'r strategaeth arall yn lle'r un bresennol.
- 2465 Gofynnodd y Fonesig Anglesey a oedd yr wybodaeth ar gael mewn dogfen ac yr hoffai gael y ddogfen er gwybodaeth ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Gofynnodd y Fonesig Anglesey hefyd os mai hwn yw'r opsiwn gorau. Esboniodd M Thornton ei fod yn dal i fynd drwy'r broses o sicrhau caniatâd gan NII. Ychwanegodd G Vaughan hefyd fod Trawsfynydd wedi bod yn adennill ILW ers nifer o flynyddoedd a bod y dechnoleg yn newid. Ychwanegodd M Thornton hefyd fod yr Almaen o'r farn mai dyma'r opsiwn gorau a bod y cynwysyddion wedi'u gweithgynhyrchu yn yr Almaen.
- 2466 Sicrhodd A M Jones y Fonesig Anglesey y bydd y cyflwyniad yn cael ei amgáu gyda'r cofnodion.

2467 Eglurodd J Jones hefyd fod Is-grŵp Gwastraff o fewn y GRhS sy'n edrych ar y materion hyn. Diolchodd A M Jones i M Thornton am y cyflwyniad.

11 FFORWM AGORED / SESIWN HOLI AC ATEB

2468 Wrth holi am orsaf newydd gofynnodd T Conway a allai rhywun adrodd yn ôl gyda dyluniad EDF a dyluniad Westing House. Eglurodd A M Jones nad oedd hyn o fewn gallu'r GRhS ac na allai ateb cwestiynau ar faterion fel hyn. Ychwanegodd A Smith fod proses a fforwm yn bodoli sy'n delio â materion o'r fath, ac ychwanegodd G Vaughan ymhellach fod gwefan ar gael hefyd.

12 UNRHYW FATER ARALL

2469 Ni oedd dim busnes arall i'w drafod.

13 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

2470 Cynhellir y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin 2010, a bydd y dyddiad yn cael ei gadarnhau'n fuan.

2471 Daeth y cyfarfod i ben am 4:30pm.